



Yr Uned Wenyn Genedlaethol

Paratoi Nythfeydd Gwenyn Mêl ar gyfer y Gaeaf

Ionawr 2020

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd paratoi nythfeydd i wynebu'r gaeaf mewn cyflwr iach, gyda chyflenwad digonol o wenyn ifanc iach a storfeydd. Dyma ddechrau'r flwyddyn wenyna, felly bydd nythfa sydd wedi gaeafu mewn cyflwr da yn sicrhau ei bod yn addas i'r diben y gwanwyn canlynol. Mae ymchwiliadau i achosion o golli nythfeydd dros y gaeaf, yn y DU a ledled Ewrop, wedi dangos cysylltiadau clir rhwng marwolaethau nythfeydd a'r feirysau, yn enwedig feirws adenydd wedi'u hanffurfio, sy'n gysylltiedig â phlâu *Varroa*. Mae'r daflen hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli *Varroa* yn effeithiol ac yn amserol. Hefyd, mae adborth gan wenywyr dros y blynyddoedd yn cyfeirio at newyn fel rheswm mawr arall dros golledion yn y gaeaf. Mae'r daflen hon yn rhoi arweiniad i helpu gwenywyr i aeafu nythfeydd yn llwyddiannus.

Amseru

Fel arfer, bydd wenywyr yn paratoi ar gyfer y gaeaf ar ôl tynnu cnwd mêl olaf y flwyddyn, ar yr un pryd ag unrhyw driniaethau gwiddonladdwr y gall fod eu hangen. Bydd y dyddiad yn amrywio yn dibynnu ar leoliad y wenynfa ond, fel arfer, bydd hyn rhwng dechrau a chanol mis Awst. Fodd bynnag, yn sgil llifoedd hwyr o gnydau megis grug a jac y neidiwr, gall fod yn hwyrach ac, os felly, rhaid bod yn arbennig o ofalus mewn perthynas â lefelau *Varroa* a'i reoli. Er enghraifft, gall fod angen rhoi triniaeth fyrdymor er mwyn lleihau poblogaeth *Varroa* cyn i nythfeydd weithio llifoedd hwyr. Gellir defnyddio dulliau eraill er mwyn helpu i gadw lefelau *Varroa* yn isel os bydd yn well gan wenywyr beidio â'i drin â chemegion. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn nhaflen yr UWG, '*Managing Varroa*'.

Archwiliwch bob nythfa er mwyn sicrhau'r canlynol:

1. Brenhines.

Mae'n well gaeafu nythfeydd sydd â breninesau iach ac ifanc, gan eu bod yn llai tebygol o farw neu ddod yn ddodwyr gwenyn gormes. Hefyd, mae'n debygol y bydd nyth magu brenhines iach ac ifanc yn fwy yn nes ymlaen yn y tymor na nyth magu hen frenhines, sy'n helpu i sicrhau y bydd digon o wenyn gweithgar newydd i gymryd lle'r rhai hŷn. Mae hyn yn

arbennig o bwysig gan na fydd 'cyrff braster' y gwenyn hŷn hynny mor fawr am y byddant wedi bod yn bwydo mag ac felly ddim yn byw mor hir. Mae'n bosibl y bydd eu hoes hefyd yn fyrrach oherwydd y pathogenau sy'n gysylltiedig â phlâu *Varroa* a phroblemau eraill sy'n wynebu gwenyn. Mae nythfeydd heb ddigon o wenyn ifanc ar ddechrau'r gaeaf yn debygol o edwino'n gyflym yn y gwanwyn. Er mwyn parhau i fod yn gynhyrchiol, ni ddylai breninesau nythfeydd sy'n cynhyrchu mêl fod yn hŷn na 2 oed. Gellir cadw breninesau â nodweddion dymunol nes eu bod yn hŷn at ddibenion bridio, a bydd llawer o wenywyr yn cadw'r rhain mewn nythfeydd cnewyllol.

2. Dim clefyd

Archwiliwch bob nythfa am arwyddion glefydau mewn mag a gwenyn llawndwf. Dylid cymryd camau adferol neu ddifa fel y bo'n briodol. Os bydd y clefyd a welir neu a amheuir yn hysbysadwy yn statudol, h.y. clefyd Ewropeaidd neu Americanaidd y gwenyn, rhaid i chi roi gwybod i'ch Arolygydd Gwenyn lleol neu swyddfa leol yr Uned Wenyn Genedlaethol. Dylai gwenynwyr wybod beth yw arwyddion y clefydau hyn ac archwilio nythfeydd am glefyd y gwenyn a chlefydau eraill mewn gwenyn drwy gydol y tymor, ac yn benodol o leiaf unwaith yn y gwanwyn ac unwaith yn yr hydref. Os bydd y nythfeydd yn fach, ceisiwch ddarganfod pam. Os na fydd plâu na chlefydau, gellir eu huno a chyflwyno brenhines newydd iddynt, ond ceisiwch osgoi uno nythfa sy'n perfformio'n wael ag un gryfach – gall fod clefyd eisoes yn bodoli yn y nythfa wannach a gaiff ei drosglwyddo i'r un iach. Os bydd clefyd, gellir cymryd camau adferol, ond mae'n bosibl mai difa fydd yr opsiwn gorau. Gellir cael rhagor o wybodaeth am glefydau mag yn nhaflen yr UWG, '*Foulbrood Disease of Honey Bees and other common brood disorders*'.




Ffig 1. Gaeafu nythfeydd yn yr eira.

3. Dim plâu

Archwiliwch bob nythfa am y plâu egstog chwilen fach y cwch a *Tropilaelaps*. Os byddwch yn amau eu bod yn bresennol, rhaid i chi roi gwybod i'ch Arolygydd Gwenyn lleol neu i'r UWG. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn nhaflenni'r UWG, 'The Small Hive Beetle' a '*Tropilaelaps: parasitic mites of honeybees*'.

4. Niferoedd *Varroa* islaw'r trothwy triniaeth neu ddifrod o 1,000 o widdon.

Rhaid cadw *Varroa* islaw'r trothwy difrod. Os na fydd gwenynwyr yn monitro lefelau gwiddon *Varroa*, mae'n bwysig defnyddio gwiddonladdwyr tua chanol mis Awst yn hytrach nag aros tan fis Medi neu fis Hydref cyn rhoi triniaethau. Y rheswm dros hyn yw y bydd poblogaeth mag gwenyn mewn nythfa yn lleihau'n sylweddol yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst, tra bydd poblogaeth *Varroa* yn dyblu bob tair i bedair wythnos. Gan y bydd gwenyn y gaeaf yn datblygu tua diwedd mis Awst a dechrau mis Medi, mae'n bwysig sicrhau na chaiff yr heintiau feirws sy'n gysylltiedig â *Varroa* eu hysgogi na'u trosglwyddo iddynt. Dangosir yr egwyddor hon ynglŷn â'r poblogaethau yn y graff isod. Os bydd eich gwenyn yn porthi ar gnydau hwyr, dylech fonitro lefelau plâu a defnyddio dulliau rheoli biodechnegol ar ddechrau'r haf, megis trapio crwybrau. Drwy reoli *Varroa* yn iawn ar ddechrau'r haf, bydd poblogaethau gwiddon islaw'r trothwy difrod yn ystod y llifoedd hwyr hyn. Mae'n ddefnyddiol cofio, unwaith y bydd niferoedd *Varroa* yn uchel a feirysau wedi cael eu trosglwyddo i ran helaeth o'r nythfa, bydd y difrod eisoes wedi'i wneud. Ceir rhagor o fanylion yn nhaflen yr UWG, '*Managing Varroa*'.



Ffig 2. Twf poblogaeth *Varroa* mewn perthynas â mag gwenyn

5. Storfeydd digonol

Bydd faint o storfeydd y bydd eu hangen ar nythfa yn amrywio yn dibynnu ar y math o weny. Yn gyffredinol, tybir bod angen i nythfa gwenyn mêl gael tua 16–20 kg o fêl i'w bwydo'n ddiogel drwy'r gaeaf. Mae'n bosibl y bydd angen mwy na hynny ar gychod gwenyn mwy sydd â breninesau epiliog. Pan fydd yn llawn, bydd ffrâm fag Safon Brydeinig yn cynnwys tua 2.3kg o fêl, felly dylech asesu storfeydd presennol y nythfa a bwydo'r gweddill angenrheidiol gan ddefnyddio surop siwgr sy'n ddigon cryf ar gyfer y gaeaf, h.y. 1kg o siwgr gronynnog gwyn i 630ml o ddŵr (2 bwys i 1 peint mewn unedau imperial). Gellir bwydo surop siwgr i ategu storfeydd mêl neu yn eu lle. Gwylwch rhag gwenyn sy'n dwyn a all fod yn broblem, yn enwedig ar ddiwedd yr haf. Bwydwch y gwenyn gyda'r nos a chliriwch unrhyw beth a gaiff ei golli er mwyn helpu i atal hyn. Yn dibynnu ar yr ardal, amodau'r tywydd ar y pryd a maint y nythfa, ni fydd eich gwenyn yn gallu prosesu surop i'w storio'n iawn ar ôl canol mis Hydref. Os na fydd digon o fêl wedi'i storio ar grwybrau erbyn diwedd mis Hydref, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi ddiwynnu ar ffondant fel dewis wrth gefn. Hefyd, bydd angen i nythfeydd gael digonedd o baill i aeafu'n llwyddiannus, yn enwedig er mwyn meithrin mag. Sicrhewch fod eich gwenyn sy'n gaeafu yn gallu cael gafael ar gnydau paill o ansawdd da, a hynny ar ddiwedd y tymor ac yn gynnar y tymor canlynol, neu gallech ystyried bwydo atchwanegiad paill neu amnewidyn paill iddynt.

6. Cwch gwenyn sydd mewn cyflwr da, yn ddiddos ac wedi'i awyru'n dda

Mae angen dewis safleoedd gwenynfeydd yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ym mhob tywydd, bod y tir yn gadarn ond yn cael ei ddraenio'n dda, bod digon o haul yno ac nad ydynt mewn pant llwydrew, a bod cylchrediad aer da. Lleithder, yn hytrach nag oerfel, sy'n lladd gwenyn, felly dylech archwilio cychod gwenyn, yn enwedig toeau, er mwyn sicrhau bod dŵr glaw yn llifo i ffwrdd. Mae'n well sicrhau bod eich cychod gwenyn oddi ar y ddaear ar standiau addas. Os nad yw safle eich gwenynfa yn agored i amodau gwyntog, a'ch bod yn defnyddio lloriau rhywllau agored, gellir eu gadael heb y mewnosodiadau llawr ynddynt.

Ailddosbarthu rhannau o gychod gwenyn. Bydd dewisiadau personol unigolion yn cael dylanwad mawr ar y ffordd y caiff rhannau cychod gwenyn eu gosod ar gyfer y gaeaf. Bydd rhai, sydd fel arfer yn rheoli eu nythfeydd ar fag dwbl neu fag a hanner, yn cyfuno ardal y nyth yn un blwch magu gan achub ar y cyfle i gael gwared ar hen grwybrau heb fawr ddim arnynt. Bydd rhai yn gosod y lloffydd mêl o dan y blwch magu – trefniant sy'n aml yn arwain at lofft mêl gwag erbyn y gwanwyn a'r frenhines yn dodwy yn y blwch uchaf, sy'n gynhesach. Bydd rhai yn trosglwyddo nythfa fach i gwch gwenyn cnewyllol polystyren. Beth bynnag fo orau gennyh, mae'n ddoeth canolbwyntio ar ddau beth hanfodol:

- Tynnwch yr atalydd brenhines allan er mwyn osgoi sefyllfa lle y bydd clwstwr y gaeaf yn mynd drwy'r atalydd ar ôl y storfeydd gan adael y frenhines ar ôl, a fydd yn marw o oerfel a newyn.

- Dylech gymedroli'r cyfaint y tu mewn i'r cwch gwenyn gan ddefnyddio byrddau ffug neu rywbeth tebyg i adlewyrchu maint y nythfa er mwyn osgoi anawsterau wrth geisio cynhesu lle mawr.

7. Diogelwch rhag fermin

Dylech osod gardiau llygod er mwyn cadw cnofilod bach allan, gan eu bod yn aml yn nythu mewn cychod gwenyn yn y gwanwyn. Mewn rhai ardaloedd, gall cnocellau gwyrddion ddifrodi cychod gwenyn, felly, os yw hyn yn broblem hysbys yn eich gwenynfa neu yn y cyffiniau, dylech roi cawell syml wedi'i gwneud o rwyd weiren dros ac o amgylch y cwch gwenyn, o leiaf 300mm i ffwrdd o waliau'r cwch er mwyn atal difrod gan roi lle i'r gwenyn hedfan.



Ffig 3. Caiff rwyd weiren ei rhoi o amgylch y cwch gwenyn er mwyn ei ddiogelu rhag cnocellau.

Monitro drwy gydol y gaeaf

Pan fyddwch wedi rhoi cymryd pob rhagofal i sicrhau y bydd eich nythfeydd yn goroesi'r gaeaf, mae'n bwysig cofio parhau i'w monitro yn ystod y misoedd oer. Mae hyn yn arbennig o hanfodol ar gyfer y cychod gwenyn hynny a oedd yn gryf drwy gydol y flwyddyn ac a oedd yn egnïol ar ddechrau'r gaeaf hefyd. Pan fyddant wedi storio eu holl fwyd ar gyfer y gaeaf, gellir monitro eich cychod gwenyn mewn sawl ffordd.

Codi'r cwch gwenyn

Ar ddiwedd yr hydref pan fyddwch wedi gorffen bridio, ewch o gwmpas a chodwch eich cychod gwenyn er mwyn cael syniad o bwysau'r blychau magu. Dyma'r pwysau y byddwch am geisio ei gynnal drwy gydol y gaeaf ac, os bydd yn mynd yn arbennig o ysgafn, yna mae'n debygol y bydd angen i chi fwydo ffondant iddynt. Mae'n ddoeth codi eich cychod gwenyn bob yn ail wythnos. Tua mis Rhagfyr, ni fyddai'n ddrwg o beth rhoi darn o siwgr candi (ffondant) i'ch gwenyn yn anrheg Nadolig chwaith.

Agor y cwch gwenyn

Pan fyddwch yn agor y cwch gwenyn, dim ond asesu'r clwstwr yn gyflym o ran storffeydd bwyd y byddwch yn ei wneud. A oes ganddynt ddigon o fwyd? Os felly, a yw y tu hwnt i'w cyrraedd? Dim ond tua 20 eiliad y dylai'r archwiliad hwn ei gymryd – peidiwch â loetran. Mae'n well bwrw golwg sydyn ar y storffeydd, hyd yn oed mewn tywydd oer, na darganfod nythfa sydd wedi marw o newyn yn y gwanwyn. Mae defnyddio 'cwiltiau gwydr' neu fyrddau gorchudd polycarbonad yn hytrach na rhai pren haenog yn helpu archwilio'r nythfa heb adael yr holl wres allan.



Ffig 4: Y defnydd o fwrdd gorchudd tryloyw i gadw golwg ar y nythfa yn y gaeaf. Llun Phil Khorassandjian

Beth yw ystyr 'a yw'r bwyd y tu hwnt i gyrraedd fy ngwenyn'?

Hyd yn oed pan fydd gan nythfa ddigonedd o fwyd, gall y bwyd fynd y tu hwnt i gyrraedd y gwenyn gan olygu y byddant yn llwgu yn y pen daw. Bydd hyn yn digwydd pan fydd nythfeydd yn symud tuag at un pen i'r blwch magu ac yn bwyta'r holl storffeydd. Byddant yn bell i ffwrdd o weddill y storffeydd ac yn methu symud mewn tywydd oer iawn am eu bod mewn clwstwr gaeaf tynn, ac felly byddant yn llwgu'n gyflym iawn. Weithiau, bydd cyfnod byr o dywydd cynnes yn peri i'r clwstwr gaeaf chwalu. Pan fydd yn ailffurfio wrth i'r tymereddau ostwng, mae'n bosibl y bydd yn bell o'r mêl sydd wedi'i storio.

Gofalwch rhag hyn drwy edrych y tu mewn i'r cwch gwenyn bob yn ail wythnos, os bydd y tywydd yn caniatáu. Dylech naill ai aiddosbarthu'r mêl ar y crwybrau fel eu bod yn agos i un ochr i'r nyth, neu roi ffordant iddynt drwy ei osod yn uniongyrchol dros ardal y nyth.

National Bee Unit

APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York YO41 1LZ

Ffôn: 03003030094 E-bost: nbu@apha.gov.uk

Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Ionawr 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk